OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 373 (Cy. 41)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 8) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i Ran 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur") mewn perthynas â dwy ardal awdurdod lleol (ac eithrio rhan o adran 58(6)).

Mae'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Mesur (ac eithrio rhan o adran 58 (6)) eisoes mewn grym mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen, Sir y Fflint, Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tudful, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Powys, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Rhan 3 mewn perthynas â'r pedair ardal awdurdod lleol sy'n weddill yng Nghymru, sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd ar 28 Chwefror 2014.

Mae darpariaethau Rhan 3 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol a restrir i sefydlu un neu fwy o dimau integredig cymorth i deuluoedd ("ICiD") yn eu hardal. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol y mae ei ardal yn cyfateb i ardal awdurdod lleol gymryd rhan wrth sefydlu tîm ICiD. Mae adran 58 yn nodi'r mathau o achosion a all gael eu hatgyfeirio i dîm ICiD ac mae adran 58(6) yn nodi'r categorïau o oedolion a gaiff fod

yn ddarostyngedig i atgyfeiriad teulu. Dim ond paragraff (a) o adran 58(6) sydd wedi ei gychwyn, felly dim ond atgyfeiriadau mewn perthynas â theuluoedd pan fo rhiant yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau sy'n gallu cael eu derbyn gan dîm ICiD. Mae adrannau 61 a 62 yn darparu ar gyfer sefydlu byrddau ICiD i oruchwylio'r timau ICiD.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 (i'r graddau y mae'n gymwys i awdurdodau Cymreig) | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 4, 5 a 6 | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adran 11 (ac eithrio is-adrannau (3) a (4)) | 1 Tachwedd 2012 | O.S. 2012/2453 (Cy.267) (C.96) |
| Adran 12 | 31 Ionawr 2012 | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adrannau 17 a 18 | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2012/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 19-56 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adrannau 57, 58 (1), (3)-(5), (6)(a), (7)-(9), (11)-(14) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |

| | | |
|---|---|---|
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |
| | 31 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| Adran 58(2) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 27 Ionawr 2012 (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 58(10) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |
| | 19 Gorffennaf 2013 | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |

| | | |
|---|---|---|
| | (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | |
| Adrannau 59(1), (3), 60(2), 61, 62(1), 64 a 65 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |
| | 31 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| Adran 59(2) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |

| | | |
|---|---|---|
| | awdurdod lleol penodedig eraill) | |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |
| | 19 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| Adrannau 60(1), 62(2) a 63 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 27 Ionawr 2012 (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 72 ac Atodlen 1 paragraffau 1-18, paragraffau 21-28 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 73 ac Atodlen 2 (i’r graddau y maent yn ymwneud â Deddf Plant 1989, Deddf Addysg 2002 a Deddf Gofal Plant 2006) | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 373 (Cy. 41)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 8) 2014

*Gwnaed* *18 Chwefror 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 74(2) a 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 8) 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "ardal awdurdod lleol" ("*local authority area*") yw'r ardal ddaearyddol honno yng Nghymru y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdani.

**Cychwyn mewn ardaloedd penodedig ar 28 Chwefror 2014**

**2.**—(1) Daw darpariaethau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a bennir ym mharagraff (2)

(**1**) 2010 mccc 1.

i rym ar 28 Chwefror 2014 mewn perthynas â'r ardaloedd awdurdod lleol a ganlyn—

(a) Ynys Môn;

(b) Conwy;

(c) Sir Ddinbych;

(d) Gwynedd.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 57 (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd);

(b) adran 58(1), (3)-(5), (6)(a), (7)-(9) ac (11)-(14) (swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd);

(c) adran 59(1) a (3) (adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd);

(d) adran 60(2) (cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd);

(e) adran 61 (sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd);

(f) adran 62(1) (swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd);

(g) adran 64 (adroddiadau blynyddol ar dimau integredig cymorth i deuluoedd);

(h) adran 65 (canllawiau ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd).

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

18 Chwefror 2014